# Agweddau'r cyhoedd tuag at gyflwyno isafswm pris fesul uned o alcohol

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Crynodeb o'r ymchwil | Ymchwil cymdeithasol | Rhif: 106/2014


**Mae Papur Gwyn Iechyd y Cyhoedd Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2014, yn cynnwys argymhelliad i gyflwyno isafswm pris fesul uned o alcohol yng Nghymru er mwyn lleihau'r niwed sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio alcohol.**

**Er mwyn cael gwell dealltwriaeth o agweddau'r cyhoedd tuag at alcohol a phennu isafswm pris fesul uned, comisiynodd Llywodraeth Cymru gwestiynau yn Arolwg Omnibws Cymru ym mis Mawrth 2014, a gynhaliwyd gan Beaufort Research Ltd. Gofynnwyd y cwestiynau i 1,012 o ymatebwyr. Y nod oedd bod yr arolwg yn cynrychioli poblogaeth Cymru sy'n 16 a throsodd.**


Dadansoddi ar gyfer Polisi
YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH
GSR
GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH
Analysis for Policy

**Effaith ddatganedig pennu isafswm pris fesul uned**

Gofynnwyd i ymatebwyr a oedd yn yfed alcohol a fyddai cyflwyno isafswm pris fesul uned yn eu harwain i yfed mwy, i yfed yr un fath, ychydig yn llai, neu lawer yn llai na'r hyn maen nhw'n ei yfed ar hyn o bryd. Ucha'n byd oedd yr isafswm pris fesul uned, mwya'n byd cyfran yr yfwyr a ddywedodd y byddent yn yfed ychydig yn llai neu lawer yn llai o alcohol:

- Byddai 6 y cant yn yfed llai o alcohol ar y lefel 50 ceiniog;
- Byddai 14 y cant yn yfed llai o alcohol ar y lefel 60 ceiniog;
- Byddai 24 y cant yn yfed llawer yn llai o alcohol ar y lefel 70 ceiniog.

O ystyried y pryder am effaith ddosbarthiadol cyflwyno isafswm pris fesul uned o alcohol ar wahanol grwpiau economaidd-gymdeithasol, mae'n werth nodi bod cyfran yr ymatebwyr a ddywedodd y byddent yn yfed llai ar bob lefel yr un fath yn achos ymatebwyr ABC1 a C2DE. Fodd bynnag, gall y diffyg gwahaniaeth mewn effaith yr oedd disgwyl ei weld rhwng ymatebwyr ABC1 a C2DE awgrymu dealltwriaeth gyfyngedig ymhlith y cyhoedd yn gyffredinol ynghylch effaith cyflwyno'r isafswm pris fesul uned ar unigolion.

Ar y lefel 50 ceiniog, roedd gwahaniaeth bychan ond ystadegol ddibwys yng nghyfran yr yfwyr risg isel a risg gynyddol neu risg uwch a ddywedodd y byddent yn yfed llai. Fodd bynnag, mae'r gwahaniaeth hwn yn cynyddu wrth i'r isafswm pris fesul uned godi ac mae'n ystadegol uwch ar y lefelau 60 ceiniog a 70 ceiniog. Dywedodd dwbl cyfran yr yfwyr 'risg gynyddol neu uwch' y byddent yn yfed llai pe bai'r isafswm pris fesul uned yn 70 ceiniog (32 y cant) o gymharu ag yfwyr 'risg is' (16 y cant).

Mae hyn yn awgrymu y gall cyflwyno isafswm pris fesul uned lwyddo i dargedu yfwyr risg gynyddol neu uwch, gyda'r gwahaniaeth yn tyfu wrth i'r isafswm pris fesul uned gynyddu.

**Cefnogaeth ar gyfer cynigion i gyflwyno isafswm pris fesul uned o alcohol**

Gofynnwyd i'r holl ymatebwyr 'Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw gynigion i osod rhai rheolau ar bris yr alcohol sy'n cael ei werthu yng Nghymru?'. Ar y cyfan, dywedodd ychydig yn llai na hanner yr ymatebwyr (47 y cant) eu bod yn ymwybodol o gynigion.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oedd yn ymwybodol o gynigion beth oedd y cynigion hynny. Nododd tua thraean yr ymatebwyr (32 y cant) yn benodol y byddai isafswm pris yn cael ei gyflwyno, a dywedodd cyfran ddigon tebyg (30 y cant) y byddai'r prisiau'n codi.

Er mwyn profi ymwybyddiaeth sy'n cael ei sbarduno, dangoswyd disgrifiad o gynnig Llywodraeth Cymru i gyflwyno isafswm pris fesul uned o alcohol i'r holl ymatebwyr, a gofynnwyd iddynt a oeddynt wedi gweld neu glywed rhywbeth am y peth cyn hyn. Dywedodd tua hanner yr ymatebwyr (52 y cant) eu bod wedi clywed neu weld rhywbeth amdano. Roedd cyfran sylweddol uwch o yfwyr (57 y cant) wedi gweld neu glywed rhywbeth am y cynigion na'r rheiny nad oeddynt yn yfwyr (38 y cant).

Roedd tua hanner yr ymatebwyr (49 y cant) o blaid y cynnig i gyflwyno isafswm pris fesul uned o alcohol. Roedd bron i bedwar o bob deg (37 y cant) yn gwrthwynebu'r cynnig, gyda 14 y cant yn dweud nad oeddynt yn gwybod.

Roedd hanner yr yfwyr risg gynyddol neu uwch (51 y cant) yn erbyn y cynnig, o gymharu â thraean (31 y cant) o'r yfwyr risg is a chwarter y rhai nad oeddynt yn yfed (25 y cant).

Gofynnwyd i ymatebwyr pam eu bod o blaid neu yn erbyn y cynnig i gyflwyno isafswm pris fesul uned o alcohol. Cafwyd amrywiaeth eang o atebion gan y rhai o blaid, gyda rhoi terfyn ar yfed gwirion a meddwdod yn gyffredinol yn cael eu nodi fynychaf (21 y cant), yn enwedig ymhlith pobl ifanc (19 y cant).

I'r ymatebwyr a oedd yn gwrthwynebu'r cynnig i gyflwyno isafswm pris fesul uned, dywedodd chwarter (25 y cant) nad oeddynt yn meddwl y byddai cyflwyno isafswm pris fesul uned yn gwneud unrhyw wahaniaeth i faint roedd pobl yn yfed.

**Yfed alcohol**

Ar y cyfan, dywedodd chwarter yr ymatebwyr (26 y cant) nad oeddynt byth yn yfed alcohol, gyda 23 y cant arall yn dweud eu bod yn yfed alcohol yn fisol neu'n llai aml na hynny. Roedd bron i un o bob deg ymatebwr (8 y cant) yn dweud eu bod yn yfed alcohol bedair gwaith yr wythnos neu fwy.

Dywedodd tua thri o bob deg ymatebwr a oedd yn yfed alcohol (29 y cant) eu bod yn yfed un neu ddwy uned ar ddiwrnod arferol wrth yfed, tra ar ochr arall y raddfa, dywedodd un o bob pum ymatebwr (20 y cant) eu bod yn yfed 10 uned neu fwy. Dynion o dan 35 oed oedd yn fwyaf tebygol o yfed llawer iawn o alcohol ar ddiwrnod arferol wrth yfed.

Ymhlith yr ymatebwyr a oedd yn yfed alcohol, dywedodd tua un o bob pump (19 y cant) eu bod wedi yfed dros chwe uned (menywod) neu wyth uned (dynion) o leiaf bob wythnos yn y 12 mis diwethaf. Roedd yfed gwirion yn fwy cyffredin ymhlith yr ymatebwyr ifanc ac ymhlith dynion.

Gan ddefnyddio dosbarthiad AUDIT-C Sefydliad Iechyd y Byd, roedd tua phedwar o bob deg ymatebwr (38 y cant) wedi'u dosbarthu fel rhai 'risg gynyddol neu risg uwch', gyda thraean (33 y cant) wedi'u dosbarthu fel rhai 'risg

is'. Nid oedd y rhelyw yn yfed (26 y cant) neu nid oeddynt yn perthyn i gategori (3 y cant).

Roedd gwahaniaeth mawr yn ôl oedran a rhyw, gyda chwech o bob deg dyn, a thua phedair o bob deg menyw, 16-54 oed yn cael eu dosbarthu fel rhai 'risg gynyddol neu risg uwch'. Mae hyn yn cymharu â thri o bob deg dyn, ac un o bob deg menyw, 55+ oed.

**Yfed gartref ac yfed yn y tŷ cyn mynd allan**

Mae cyfran uwch o yfwyr 'risg gynyddol neu risg uwch' yn yfed alcohol gartref o leiaf ddwywaith yr wythnos o gymharu ag yfwyr 'risg is', ac roeddynt hefyd yn llawer mwy tebygol o yfed yn y tŷ cyn noson allan.

O'r ymatebwyr a oedd yn yfed alcohol yn y tŷ cyn noson allan yn y 12 mis diwethaf, dywedodd chwech o bob deg (61 y cant) eu bod fel arfer yn cael diod neu ddau cyn mynd allan, gydag un o bob deg (9 y cant) yn dweud eu bod yn cael digon i feddwi.

Roedd yfed yn y tŷ cyn noson allan yn fwyaf cyffredin ymhlith yr ymatebwyr o dan 35 oed, gyda 29 y cant o ddynion a 26 y cant o fenywod yn dweud eu bod wedi yfed alcohol gartref cyn mynd am noson allan o leiaf ddwywaith y mis yn y flwyddyn ddiwethaf.

Gofynnwyd i ymatebwyr a oedd yn yfed alcohol gartref beth oedd y prif ystyriaethau wrth ddewis beth i yfed. Dywedodd tua chwech o bob deg ymatebwr (61 y cant) mai dewis enwau cyfarwydd oedd y brif ystyriaeth. Dewisodd cyfanswm o tua chwarter ateb a oedd yn ymwneud a chael bargen neu gynnig arbennig ('enwau brand am bris arbennig', 'yr enwau brand rhataf', neu 'enw brand y siop').

**Codi pris alcohol mewn archfarchnadoedd, siopau diodydd trwyddedig a siopau cyfleustra**

Gofynnwyd i'r holl ymatebwyr i ba raddau roeddynt yn cytuno neu'n anghytuno â chyfres o ddatganiadau am godi pris alcohol mewn archfarchnadoedd, siopau diodydd trwyddedig a siopau cyfleustra.

Roedd cyfran uwch o ymatebwyr yn cytuno y byddai codi pris cynhyrchion alcohol rhatach yn y siopau hyn 'yn lleihau salwch' (48 y cant yn cytuno) o gymharu â 'lleihau troseddau' (39 y cant yn cytuno).

Roedd dros hanner yr ymatebwyr (53 y cant) yn cytuno 'na fyddai'n gwneud unrhyw wahaniaeth o gwbl i faint roedd pobl yn yfed', gyda chwech o bob deg ymatebwr '59 y cant' yn cytuno â'r datganiad bod 'faint mae rhywun yn yfed yn ddewis personol ac ni ddylai'r llywodraeth ymyrryd'.

**Trafodaeth**

Mae'n bwysig nodi cyfyngiadau posibl yr astudiaeth hon o ystyried yr anawsterau ynghylch tuedd dymunoldeb cymdeithasol a'r duedd dwyn i gof wrth ateb cwestiynau i arolygon am bynciau fel yfed, yn enwedig mewn lleoliadau cyfweld wyneb yn wyneb. Gall tueddiadau o'r fath arwain ymatebwyr i gamliwio faint o alcohol maen nhw'n ei yfed drwy ddarparu atebion y tybiant sy'n fwy cydnaws gyda norm cymdeithasol y dydd.

Er gwaethaf y cyfyngiadau hyn, mae canfyddiadau'r cyhoedd ynghylch yr isafswm pris fesul uned yn awgrymu y gallai'r gyfraith gael ei thargedu tuag at leihau yfed alcohol ymhlith yr yfwyr sy'n fwy agored i risg:

- Mae cyfraith isafswm pris fesul uned lwyddiannus yn debygol o effeithio'n bennaf ar werthiant alcohol allfasnach, ac felly fe allai leihau'r arfer o yfed gartref cyn mynd am noson allan. Yn yr arolwg hwn, gwelwyd bod cyfran uwch o yfwyr 'risg gynyddol neu risg uwch' yn yfed alcohol gartref yn amlach - a'u bod yn fwy tebygol o yfed yn y tŷ cyn mynd am noson allan - o gymharu ag yfwyr 'risg is'.

- Ar y lefel isafswm pris fesul uned o 50c, dywedodd cyfran mymryn yn uwch o yfwyr 'risg gynyddol neu risg uwch' y byddent yn yfed llai o alcohol nag yfwyr 'risg is' - ond wrth i'r isafswm pris fesul uned godi, cynyddu hefyd oedd y bwlch rhwng cyfran yr yfwyr 'risg gynyddol neu risg uwch' a'r yfwyr 'risg is' a ddywedodd y byddent yn yfed llai o alcohol.

- Yn olaf, canfu'r arolwg hwn bod cyfran uwch o ymatebwyr o blaid cyflwyno'r isafswm pris fesul uned yng Nghymru nag sy'n ei wrthwynebu. Fodd bynnag, roedd y gefnogaeth yn is ymhlith yfwyr 'risg gynyddol neu risg uwch' - gyda hyn o bosib yn adlewyrchu'r tebygolrwydd mai'r grŵp hwn sy'n debygol o gael ei effeithio'n bennaf gan gyfraith o'r fath.

Ian Jones
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru

ISBN 978 1 4734 2634 4

8 Rhagfyr 2014

OGL

Pob cynnwys ar gael o dan y Drwydded Llywodraeth Agored v3.0, heblaw am pryd y nodwyd fel arall.
http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/